Mae **Darllen Mewn Parau** yn ffordd dda y gall rhieni helpu eu plant i ddarllen. Mae'n gweithio'n dda gyda'r rhan fwyaf o blant a bydd yn eu helpu i fwynhau darllen.

BETH FYDDWCH EI ANGEN

LLYFRAU i ddewis ohonynt. Mae'n bosibl benthyg llyfrau o lyfrgell yr ysgol ac mae'n werth ymuno gyda'ch llyfrgell leol gan fod ganddynt ddewis eang o lyfrau ar gyfer plant.

Dylai **eich plentyn** ddewis y llyfr. Os yw eich plentyn yn cael digon o ddarllen llyfr ac am ei newid nid oes problem gyda hynny. Mae plant yn dysgu darllen yn well wrth ddefnyddio llyfrau y maent yn eu hoffi.

AMSER i weithredu Darllen Mewn Parau. Ceisiwch wneud peth darllen ar y cyd bob dydd. Gallwch wneud 5 munud yn unig bob dydd os dymunwch. Peidiwch wneud mwy na 15 munud heblaw bod eich plentyn yn dymuno parhau. Mae'n holl bwysig fod gan rywun yn y teulu'r amser i wneud darllen ar y cyd am o leiaf 5 munud y dydd.

LLEOLIAD i wneud Darllen Mewn Parau. Ceisiwch ganfod le tawel. Mae'n anodd i blant ddarllen pan mae llawer o sŵn neu fod llawer o bethau yn mynd ymlaen yn y cefndir. Ewch i ffwrdd oddi wrth y teledu neu trowch ef i ffwrdd. Os nad ydych yn gyfforddus yna byddwch yn ei chael yn anodd canolbwyntio ac i edrych yn ofalus ar y llyfr gyda'ch gilydd.

TECHNEG RHIF 1

DARLLEN MEWN PARAU

Amcan 1.

Gwneud yn siŵr bod y plentyn â diddordeb ac yn gyfarwydd â chynnwys, iaith, cymeriadau a digwyddiadau'r llyfr.

Dull.

Ewch drwy'r llyfr gan ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau am y lluniau (gan ddechrau gyda'r clawr fel arfer).

"Mae'n rhaid mai Jack yw e – be mae e'n ei wneud?"
"Beth sy'n digwydd yma?"
"Pam rwyt ti'n meddwl ei fod yn gwneud hynny?"

Tynnwch sylw at yr enwau ond peidiwch â gofyn cwestiynau am y testun na chwestiynau sy'n golygu fod yn rhaid mynd ati i ddarllen. Derbyniwch bob ateb rhesymol, (Dim mwy na dwy i dair munud).

Noder: Bydd arnoch angen edrych ar/ darllen llyfr newydd yn gyntaf

Amcan 2.

Gwneud yn siŵr bod y plentyn wedi clywed y llyfr sydd yn cael ei ddarllen. Cynorthwyo plentyn i wrando yn ofalus. Dilyn testun y mae eich bys yn pwyntio ato wrth i chi ddarllen.

Dull.
Gan fod eich plentyn yn eistedd wrth eich ochr, dywedwch bethau fel:

"Rwy'n mynd i ddarllen y llyfr hwn i ti. Gwranda yn ofalus a dilyn fy mys wrth i mi ddarllen."
"Beth am ddarllen y llyfr hwn gyda'n gilydd."

Darllenwch yn glir gan roi digon o fynegiant dramatig yn y darlleniad.
Symudwch eich bys o dan y testun wrth i chi ddarllen.
Cadarnhau - Ewch yn ôl i ddechrau'r llyfr, symudwch eich bys o dan linell o bob tudalen a gofynnwch gwestiwn syml ynglŷn â'r dudalen y byddwch yn sicr y bydd y plentyn yn gallu ei ateb yn gywir. e.e.

"Beth ddywedodd Jack?"
"Pwy wnaeth hyn a hyn?"

Rhowch ganmoliaeth i'r plentyn am atebion cywir, derbyniwch rai anghywir ond rhowch yr ateb cywir heb dynnu sylw at hynny. (Dim mwy na thair munud)

DARLLEN MEWN PARAU

AMCAN.
Bydd eich plentyn yn darllen yn unsain gyda chi, hynny yw, byddwch yn darllen gyda'ch gilydd ar yr un pryd.

DULL.
Dywedwch wrth eich plentyn eich bod yn mynd i ddarllen y llyfr eto ond y tro hwn eich bod eisiau iddo ef/ hi ddarllen gyda chi yn uchel a gyda digon o fynegiant. Darllenwch ar gyflymdra cyffredin gyda digon o fynegiant, wrth symud eich bys o dan y testun.

Gofalwch – erbyn diwedd y funud gyntaf bod eich plentyn yn darllen gyda chi gan ddweud pob gair.
Gofalwch - erbyn diwedd tair munud bod eich plentyn yn darllen gyda chi gyda mynegiant mewn llais clir ac uchel. Yna dywedwch wrth eich plentyn y tro hwn eich bod eisiau iddo ddarllen rhai geiriau/ymadroddion/brawddegau ar ei ben ei hun. Byddwch yn dechrau darllen gyda'ch gilydd eto, a phan fydd o eisiau darllen yn annibynnol bydd yn rhoi cnoc i'r bwrdd neu yn cyffwrdd eich braich. Yna byddwch yn peidio â darllen ac yn gwrando ar eich plentyn yn darllen hyd nes bydd yn gwneud camgymeriad neu pan fydd yn methu â darllen gair ar ôl trio am tua phedair eiliad. Pan fydd hyn yn digwydd rhowch y gair iddo (peidiwch â thynnu sylw at y camgymeriad) gofynnwch i'ch plentyn ailadrodd y gair cywir. Yna ail ddechreuwch ddarllen gyda'ch gilydd hyd nes bydd eich plentyn yn rhoi cnoc i'r bwrdd neu yn tynnu eich sylw eto.

Rhowch ganmoliaeth i'ch plentyn **bob amser** am gnocio ac am ddarllen yn annibynnol.
Canmolwch y plentyn am gywiro ei hun. Peidiwch â rhoi sylwadau ar gamgymeriadau'r plentyn.

Yn raddol dylai'r amser y bydd eich plentyn yn darllen yn annibynnol gynyddu.

TECHNEG RHIF 2.

DARLLEN WEDI EI BARATOI.

Mae hon yn dechneg ar gyfer darllenwyr hŷn neu fwy galluog nad ydynt angen darllen mewn parau (darllen unsain). Y bwriad yw sicrhau na ofynnir i'ch plentyn ddarllen unrhyw beth nad yw ef/ hi yn ei ddeall. Mantais darllen wedi ei baratoi yw bod hyn yn rhoi mwy o amser i'r plentyn ddarllen ar ei ben ei hun yn ystod eich sesiynau darllen yn y cartref.

DULL.

Dechreuwch fel ag o'r blaen – hynny yw, ewch dros y stori hyd yn hyn, trafodwch gymeriadau ac ati yn y stori newydd.
Darllenwch y darn yn uchel ar gyflymder cyffredin gyda digon o fynegiant. Yna ewch drwy'r darn gyda'ch plentyn gan dynnu sylw at eiriau ac ymadroddion a allai beri anhawster o safbwynt eu darllen neu eu hystyr.
Dim ond ar ôl gwneud hyn y dylech ofyn i'ch plentyn ddarllen yn uchel ar ben ei hun. Gwrandewch yn ofalus. Darllenwch unrhyw eiriau neu ymadroddion y mae eich plentyn yn cael anhawster gyda hwy ar ôl saib byr (tua phedair eiliad).
Peidiwch â thynnu sylw at unrhyw gamgymeriadau.

Os bydd eich plentyn yn cael anhawster gyda'r dull hwn ewch yn ôl at dechneg y darllen mewn parau a/ neu cysylltwch â'r ysgol am fwy o gyngor.

CANLLAWIAU YNGLŶN Â DARLLEN YN Y CARTREF.

PETHAU I'W GWNEUD.

- Gwnewch yn siŵr fod y sesiwn yn un hapus. Rhowch eich holl sylw i'r gwaith.

- Canfyddwch le distaw i ffwrdd oddi wrth bethau fel y teledu, radio neu blant eraill yn chwarae.

- Gwnewch eich hunain yn gyfforddus, mae eistedd ochr wrth ochr yn well nag eistedd yn wynebu eich gilydd.

- Pan fyddwch wedi sefydlu'r trefniadau, glynwch wrthynt gan y bydd yr arferiad yn gymorth i'r gwaith.

- Rhowch lawer o ganmoliaeth am ymdrech (e.e. dweud "Da iawn ti", neu wenu neu guro cefn y plentyn).

- Dilynwch y dechneg a awgrymir.

PEIDIWCH Â:

- gwneud darllen yn dasg annifyr a diflas.
- bygwth dweud wrth yr athro/ athrawes os nad ydynt yn gwneud y gwaith.
- gwneud i'r plentyn feddwl ei fod yn cystadlu ag unrhyw un arall.
- dangos pryder oherwydd ei ddiffyg diddordeb.
- beirniadu ymdrechion eich plentyn na thynnu sylw at gamgymeriadau.
- bod yn brin â'ch canmoliaeth.
- bod ofn gofyn am help neu gymorth o'r ysgol, pa mor ddibwys bynnag y credwch yw'r broblem.